O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 768 (Cy. 113)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mehefin 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Gorffennaf 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Gorffennaf 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiad a chyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbytffordd tua’r gorllewin na cherbytffordd tua’r dwyrain y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw’n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua’r gorllewin y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r dwyrain.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**5.** Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**9.**—(1) Nid yw'r gwaharddiad na'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**10.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**11.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Mehefin 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif**

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf hyd at ffin Cymru/Lloegr. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf am bellter o 12.1 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr am bellter o 17.6 cilomedr.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro**

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf am bellter o 1 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganol trosbont Severn Road wrth ffin ddwyreiniol y consesiwn am bellter o 1 cilomedr.

**ATODLEN 4**
**Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf hyd at ffin Cymru/Lloegr. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.